**Eitem ar yr agenda: 3**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Dyma gofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 25ain Ebrill 2005 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Rhyl. Dechreuodd y cyfarfod am 12.20pm.

**Yn bresennol:**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

### 1) Ymddiheuriadau

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| | |
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi cael eu cyflwyno iddo ef na'r Clerc i'w hystyried.

**3) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2005
ii. cyfarfod Arbennig y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 7fed Mawrth 2005

***Penderfynwyd:* - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion**

**4) Materion yn codi**

**Cyfarfod y Panel Gweithredol, 31ain Ionawr 2005 – Eitem Fusnes 14, Gweithdrefnau Cwyn, Disgyblu a Galluogrwydd:** Dywedodd y Clerc, gan fod yr Awdurdod wedi diwygio Cylch Gwaith y Panel Gweithredol i adlewyrchu'r newidiadau yng nghyfrifoldebau'r Panel yn dilyn mabwysiadu'r Gweithdrefnau Cwyn, Disgyblu a Galluogrwydd, y byddai angen diwygio'r Cynllun Dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân hefyd er mwyn ymgorffori dyletswyddau diwygiedig y Prif Swyddog Tân i'r Cynllun dan y gweithdrefnau newydd. Felly:

***Penderfynwyd:*** - ***bod y Clerc yn llunio adroddiad i'w gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym Mehefin 2005, ar y newidiadau sydd eu hangen i'r Cynllun Dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y cyfrifoldebau wedi i'r Awdurdod fabwysiadu'r Gweithdrefnau Cwyn, Disgyblu a Galluogrwydd***

**Cyfarfod Arbennig o'r Panel Gweithredol, 7fed Mawrth 2005:** Holodd y Cynghorydd E C George a gafwyd unrhyw ymatebion yn dilyn penderfyniad y Panel i lobïo Aelodau'r Cynulliad cyn y ddadl yn y sesiwn lawn o'r Cynulliad i drafod Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar gyfer Cymru. Cadarnhaodd y Clerc fod llythyr wedi cael ei anfon at bob Aelod o'r Cynulliad wedi'r cyfarfod, i ailddatgan pryderon yr Awdurdod ynghylch nifer o faterion oedd yn nogfen y Fframwaith; roedd copïau o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at bob aelod o'r Panel Gweithredol. Roedd un o'r pwyntiau oedd yn llythyr yr Awdurdod wedi cael ei godi gan un o Aelodau'r Cynulliad yn ystod y ddadl. Roedd pwyntiau eraill yn ymwneud â llunio'r ddogfen wedi cael eu trin gan swyddogion y Cynulliad cyn y cyflwynwyd hi i'r sesiwn lawn. Ar derfyn y ddadl derbyniodd y Fframwaith gymeradwyaeth y Cynulliad. Bellach, roedd angen i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru roi sylw i'r Fframwaith wrth osod blaenoriaethau, gweithredu polisïau a chyflawni eu swyddogaethau. Dal i ddisgwyl am gopïau o'r fersiwn derfynol gyhoeddedig o'r Fframwaith yr oeddid.

Cafodd y Panel wybod gan y Cadeirydd fod cyfarfod o Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru bellach wedi cael ei drefnu ar 18fed Mai 2005. Ymhlith yr eitemau i'w

trafod oedd trefniadau aelodaeth y Fforwm yn y dyfodol. Dywedodd y Cadeirydd hefyd y byddai, efallai, angen galw cyfarfod arbennig o'r Panel Gweithredol i drafod y ffordd ymlaen.

**5) Y Trefniadau ar gyfer ymdrin â Gwerth Gorau yn y dyfodol**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i ofyn i'r Panel ystyried argymhelliad gan Bwyllgor Gwerth Gorau'r Awdurdod fod ei gyfrifoldebau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn cael eu trosglwyddo i'r Panel Gweithredol. Aeth yn ei flaen i esbonio fod y Pwyllgor Gwerth Gorau, yn ei gyfarfod ar 10fed Mawrth 2005, wedi gwneud y penderfyniad hwn yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol diweddar a dyfodiad proses y Cynllun Risg. Tynnodd y Clerc sylw at y ffaith y byddai'n rhaid cael cadarnhad yr Awdurdod Tân ac Achub petai'r Panel Gweithredol yn cytuno â'r argymhelliad, ac y byddai angen gwneud newidiadau i Gylch Gwaith y Panel. Roedd y Cynghorydd E C George o'r farn fod yr argymhelliad yn cynrychioli'r dull mwyaf rhesymegol i'r Awdurdod ei fabwysiadu. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod y Pwyllgor Gwerth Gorau yn cael ei ddirwyn i ben ac y dylid diwygio cylch gwaith y Panel Gweithredol yn unol â hynny***

**6) Adolygiad o'r Ddeddfwriaeth ar Lwfansau i Aelodau**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cael yr aelodau i gytuno ar ymateb i lythyr ymgynghorol y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth y Cynulliad, dyddiedig 9fed Chwefror 2005, ar yr *Adolygiad o Reoliadau Lwfansau Cynghorwyr.* Roedd copïau o lythyr y Gweinidog oedd yn cynnwys cynigion Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd ag ymateb drafft ar ran yr Awdurdod, yn atodiad i'r adroddiad ar gyfer ystyriaeth yr aelodau. Esboniodd y Clerc nad oedd y rheoliadau a lywodraethai dalu lwfansau i aelodau awdurdodau tân ac achub yn wir yn cyfeirio at Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig, ond yn hytrach, yn diffinio'r lwfansau fel Lwfansau Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Awdurdod Tân. Er gwaethaf hyn, roedd y Gweinidog, fodd bynnag, i'w gweld fel pe bai am wahardd cynghorydd oedd yn dal portffolio, neu'n gadeirydd pwyllgor, ar ei gyngor ei hun a hefyd yn dal swydd ar awdurdod tân ac achub rhag derbyn dau lwfans i gydnabod y llwyth gwaith a'r ymrwymiad ychwanegol oedd yn dod gyda'r ddwy rôl. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Clerc fod y Gweinidog wedi ceisio, yn ystod y cyfnod o lunio'r Rheoliadau, gwahardd talu lwfansau am gyfrifoldebau ychwanegol i ddeiliaid swydd mewn awdurdodau tân ac achub oedd hefyd â swyddi o fewn eu cynghorau eu hunain. Ond oherwydd i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru lobïo'n effeithiol, roedd y cynnig hwn wedi cael ei dynnu o'r Rheoliadau cyn iddynt gael eu cymeradwyo. Yna, aeth y Clerc drwy bob pwynt yn ei adroddiad a'r ymateb drafft yn fanwl. I gloi, dywedodd ei fod o'r farn, er nad oedd y Gweinidog wedi codi'r mater yn ei llythyr, fod hwn yn gyfle da i'r Awdurdod ail-ddatgan yn ei ymateb ei safbwynt ar yr angen i ddod â

deddfwriaeth ymlaen i gynnwys lwfansau i aelodau awdurdodau tân o fewn y lwfansau pensiynadwy.

Dywedodd y Cynghorydd E C George ei fod yn deall rhesymeg y Gweinidog dros gyfyngu ar y taliadau Lwfansau Cyfrifoldebau Arbennig i gynghorwyr oedd â mwy nag un rôl ychwanegol o fewn eu cynghorau eu hunain, ond roedd yn teimlo na ddylai cynghorwyr oedd yn gwasanaethu ar gyrff allanol ac yn ymgymryd â rolau ychwanegol ar y cyrff hynny, gael eu cosbi trwy gael eu gwahardd rhag derbyn lwfansau am y cyfrifoldebau ychwanegol. Hefyd, gofynnodd i'r pwynt oedd yn y llythyr, yn gofyn i lwfansau'r awdurdod tân fod yn bensiynadwy, wneud amod mai'r awdurdodau a weinyddai gronfeydd pensiwn llywodraeth leol yn hytrach nag awdurdodau tân ac achub ddylai weinyddu'r cynllun pensiwn os a phan y caniateir hyn. Felly:

***Penderfynwyd:** - cytuno, ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub, i'r ymateb yn Atodiad 1 i'r adroddiad fel y'i lluniwyd, gan gynnwys yn y paragraff olaf mai cynlluniau pensiwn yr awdurdodau cyfansoddol ddylai weinyddu'r cynllun pensiwn os a phan y deuai lwfansau Awdurdod Tân yn bensiynadwy, a bod llythyr yn cael at anfon at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus cyn y dyddiad cau ar gyfer ymatebion sef 5ed Mai 2005*

## 7) Y Diweddaraf am y Prosiectau Cyfalaf

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am raglen gyfalaf yr Adran Eiddo. Cafodd yr aelodau wybod gan y Clerc fod yr atodiad i'r adroddiad yn dod dan fusnes Rhan II, felly byddai'r wasg a'r cyhoedd yn gorfod cael eu heithrio cyn trafod materion manwl yn codi ohono. Yna, aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Colin Hanks trwy bob eitem yn yr adroddiad a gwahoddodd gwestiynau gan yr aelodau. Cafodd yr aelodau wybod bod y gwaith ar y Pencadlys newydd yn mynd yn ei flaen yn ôl yr amserlen, ac mai'r disgwyl oedd y byddai'r staff yn dechrau symud yno yn ystod yr wythnos a ddechreuai ar y 6ed o Fehefin 2005. Estynnwyd croeso i aelodau'r Panel i ymweld â'r Pencadlys newydd, ond gofynnwyd iddynt wneud trefniadau o flaen llaw. Awgrymodd y Cynghorydd E C George mai'r peth doethaf fyddai trefnu ymweliad â safle'r Pencadlys i bob aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn syth ar ôl cyfarfod yr Awdurdod ar 20fed Mehefin 2005. Felly:

***Penderfynwyd:** - nodi cynnwys yr adroddiad a threfnu ymweliad â Phencadlys newydd y Gwasanaeth ar gyfer holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn syth ar ôl cyfarfod yr Awdurdod ar 20fed Mehefin 2005*

## 8) Tendr ar gyfer gwaith ailfodelu Gorsaf Dân Llanrwst

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cymeradwyaeth yr aelodau i dderbyn tendr i godi estyniad a gwneud gwaith ailfodelu yng Ngorsaf Dân Llanrwst. Esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks fod yn rhaid i'r Prif Swyddog Tân, yn unol â Rheolau Sefydlog

yr Awdurdod mewn perthynas â Chytundebau, geisio caniatâd yr Awdurdod cyn y gallai dderbyn y tendr gan fod y tendr isaf a ddaeth yn ôl y fanyleb yn uwch na'r ddarpariaeth yn y gyllideb o fwy na 10%. Aeth yn ei flaen i esbonio mai'r prif ffactorau a gyfrannodd at y gwahaniaeth o'r ddarpariaeth wreiddiol yn y gyllideb oedd yr angen i ddarparu cyfleusterau ar gyfer merched a gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Sicrhawyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks y gellid cwrdd â chostau ychwanegol y prosiect trwy arbedion mewn prosiectau eraill yn y rhaglen gyfalaf. Nododd y Cynghorydd S C Jones ei phryder nad oedd y gofynion ychwanegol wedi eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf wreiddiol cyn dechrau ar y broses dendro. Felly:

***Penderfynwyd:* - rhoi caniatâd i'r Prif Swyddog Tân dderbyn y tendr ar gyfer y gwaith oedd eu angen yng Ngorsaf Dân Llanrwst am y swm o £141,647.67**

**9) Ailfodelu'r Tŷ Hyfforddi yng Ngorsaf Dân y Rhyl**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y tendr a dderbyniwyd ar gyfer ailfodelu'r tŷ hyfforddi yng Ngorsaf Dân y Rhyl. Dywedodd wrth yr aelodau fod yr holl fanylion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, a bod y tendr a dderbyniwyd o fewn y dyraniad yn y gyllideb. Felly:

***Penderfynwyd:* - nodi penderfyniad y Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd yn derbyn y tendr ar gyfer ailfodelu'r tŷ hyfforddi yn y Rhyl am y swm o £56,539**

**10) Ymestyn Tâl Salwch**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y penderfyniadau a wnaeth, wedi ymgynghori â'r Cadeirydd ynghylch caniatáu ymestyn tâl salwch. Esboniodd fod yr adroddiad wedi cael ei lunio mewn modd i arbed datgelu pwy oedd yr unigolion dan sylw. Felly:

***Penderfynwyd:* - nodi'r adroddiad**

**11) Materion Brys**

Dim.

**12) Dyddiad(au) cyfarfod(ydd) i ddod**

Wedi trafodaeth:

***Penderfynwyd:* - cynnal y cyfarfod nesaf o Weithgor Cynllun Integredig Rheoli Risg a'r Panel Gweithredol ddydd Llun 25ain Gorffennaf 2005. Y Gweithgor i gyfarfod am 10.30 y bore, a chyfarfod o'r Panel Gweithredol i ddilyn am hanner**

***dydd; y ddau gyfarfod i gael eu cynnal ym Mhencadlys Newydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy***

**<u>RHAN II</u>**

Dim busnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 o'r gloch.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** <u>T Roberts</u> **Dyddiedig:** <u>25 Gorffennaf, 2005</u>